# Freedom of Information Act 2000 (FOIA)

## Decision notice

**Date:** **29 March 2019**

**Public Authority:** **Wrexham County Borough Council**
**Address:** **foi@wrexham.gov.uk**

### Decision (including any steps ordered)

1. The complainant has requested the job description of Wrexham County Borough Council's Welsh Language Co-ordinator. The Council originally refused the request on the basis of section 40(2) of the FOIA, but disclosed it in full during the course of the Commissioner's investigation. The Commissioner's decision is that in failing to provide the information within the required timescales, Wrexham County Borough has breached section 10 of the FOIA. As the information has now been provided, the Commissioner does not require the public authority to take any steps.

### Request and response

2. On 8 May 2018, the complainant wrote to and requested the following information:

   *"Dw i'n sgwennu i ofyn am gopi o dy swydd ddisgrifiad di, os gwelwch yn dda. Dw i'n si?r ei fod yn haws gofyn a chael copi yn uniongyrchol gan ti yn hytrach na thrwy'r tîm FOI."*

   Which, translated, requested a copy of the Job Description of the Council's Welsh Language Co-ordinator.

3. The Council responded on 1 June 2018, refusing the request on the basis of section 40(2) FOIA.

4. Following an internal review the Council wrote to the complainant on 29 June 2018. It stated that it was upholding its original decision to refuse the request on the basis of section 40(2) FOIA.

## Scope of the case

5. The complainant contacted the Commissioner on 4 July 2018 to complain about the way his request for information had been handled. He stated that he was not asking for the job description of a named individual but for a role within the Council, adding that the details must have been public when the post was advertised. He further added that the Council had disclosed the information in respect of a previous request for the job description of the Council’s Chief Welsh Language officer.

6. The Commissioner notes that the Council has disclosed a copy of the previously withheld information to the complainant during the course of her investigation. However, the complainant remains dissatisfied with the Council’s handling of his request and in particular, the delay in receiving the requested information. The scope of the Commissioner’s investigation is therefore to consider whether the Council complied with the timescales for providing the requested information as specified under section 10 FOIA.

## Reasons for decision

### Section 10(1) – time for compliance with request

7. Section 10 of the FOIA states that, subject to subsections (2) and (3), a public authority must comply with section 1(1) promptly and in any event not later than the twentieth working day following the date of receipt.

8. The Commissioner notes that the complainant submitted his request on 8 May 2018 however, did not receive the information until 13 March 2019, prompted by her investigation. The Council clearly therefore breached section 10(1) of the FOIA in its handling of this request for information.

## Right of appeal

---

9. Either party has the right to appeal against this decision notice to the First-tier Tribunal (Information Rights). Information about the appeals process may be obtained from:

   First-tier Tribunal (Information Rights)
   GRC & GRP Tribunals,
   PO Box 9300,
   LEICESTER,
   LE1 8DJ

   Tel: 0300 1234504
   Fax: 0870 739 5836
   Email: GRC@hmcts.gsi.gov.uk
   Website: www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber

10. If you wish to appeal against a decision notice, you can obtain information on how to appeal along with the relevant forms from the Information Tribunal website.

11. Any Notice of Appeal should be served on the Tribunal within 28 (calendar) days of the date on which this decision notice is sent.

**Signed ………………………………………………**

**Catherine Dickenson**
**Senior Case Officer**
**Information Commissioner's Office**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**

# Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf)

## Hysbysiad penderfynu

**Dyddiad:** **29 Mawrth 2019**

**Awdurdod Cyhoeddus:** **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
**Cyfeiriad:** **foi@wrexham.gov.uk**

### Y penderfyniad (gan gynnwys unrhyw gamau y gorchmynnir eu cymryd)

1. Mae'r achwynydd wedi gofyn am ddisgrifiad swydd Cydlynydd Cymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Yn wreiddiol, gwrthododd y Cyngor y cais ar sail adran 40(2) o'r Ddeddf, ond fe'i datgelodd yn llawn yn ystod ymchwiliad y Comisiynydd. Penderfyniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, drwy fethu rhoi'r wybodaeth o fewn yr amserlenni angenrheidiol, wedi torri adran 10 o'r Ddeddf. Gan fod yr wybodaeth wedi'i darparu bellach, nid yw'r Comisiynydd yn gofyn i'r awdurdod cyhoeddus gymryd unrhyw gamau.

### Y cais a'r ymateb

2. Ar 8 Mai 2018, ysgrifennodd yr achwynydd at y Cyngor gan ofyn am yr wybodaeth a ganlyn:

   *"Dw i'n sgwennu i ofyn am gopi o dy swydd ddisgrifiad di, os gwelwch yn dda. Dw i'n siŵr ei fod yn haws gofyn a chael copi yn uniongyrchol gan ti yn hytrach na thrwy'r tîm FOI."*

   sef cais am Ddisgrifiad Swydd Cydlynydd Cymraeg y Cyngor.

3. Ymatebodd y Cyngor ar 1 Mehefin 2018, gan wrthod y cais ar sail adran 40(2) o'r Ddeddf.

4. Yn dilyn adolygiad mewnol, ysgrifennodd y Cyngor at yr achwynydd ar 29 Mehefin 2018 gan ddweud eu bod yn cynnal eu penderfyniad gwreiddiol i wrthod y cais ar sail adran 40(2) o’r Ddeddf.

## Rhychwant yr achos

5. Cysylltodd yr achwynydd â’r Comisiynydd ar 4 Gorffennaf 2018 i gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'i gais am wybodaeth. Dywedodd nad oedd yn gofyn am ddisgrifiad swydd unigolyn a enwyd ond yn hytrach am ddisgrifiad swydd rôl o fewn y Cyngor, gan ychwanegu ei bod yn rhaid bod y manylion ar gael yn gyhoeddus pan hysbysebwyd y swydd. Ychwanegodd ymhellach fod y Cyngor wedi datgelu’r wybodaeth mewn perthynas â chais blaenorol am ddisgrifiad swydd Prif Swyddog Cymraeg y Cyngor.

6. Mae'r Comisiynydd yn nodi bod y Cyngor wedi datgelu copi o'r wybodaeth a gadwyd yn ôl o'r blaen i’r achwynydd yn ystod ei hymchwiliad. Serch hynny, mae’r achwynydd yn dal yn anfodlon ar ymdriniaeth y Cyngor â’i gais ac yn benodol y gohirio cyn iddo gael yr wybodaeth y gofynnwyd amdani. Rhychwant ymchwiliad y Comisiynydd felly yw ystyried a wnaeth y Cyngor gydymffurfio â’r amserlenni ar gyfer darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani fel y’u pennir o dan adran 10 o’r Ddeddf.

## Y rhesymau dros y penderfyniad

### Adran 10(1) – amser i gydymffurfio â’r cais

7. Mae adran 10 o’r Ddeddf yn dweud bod rhaid i awdurdod cyhoeddus, yn ddarostyngedig i isadrannau (2) a (3), gydymffurfio ag adran 1(1) yn ddi-oed a beth bynnag heb fod yn hwyrach nag ugain diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth y cais i law.

8. Mae'r Comisiynydd yn nodi bod yr achwynydd wedi cyflwyno’i gais ar 8 Mai 2018 ond na chafodd yr wybodaeth tan 13 Mawrth 2019, a hynny yn sgil ymchwiliad y Comisiynydd. Mae’n amlwg felly fod y Cyngor wedi torri adran 10(1) o’r Ddeddf wrth ymdrin â’r cais hwn am wybodaeth.

**Yr hawl i apelio**

---

1. Mae gan y naill barti a'r llall hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad penderfynu hwn i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth). Mae gwybodaeth am y broses apelio ar gael oddi wrth:

    Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth)
    GRC & GRP Tribunals,
    PO Box 9300,
    LEICESTER,
    LE1 8DJ

    Ffôn: 0300 1234504
    Ffacs: 0870 739 5836
    Ebost: GRC@hmcts.gsi.gov.uk
    Gwefan: www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber

2. Os hoffech apelio yn erbyn hysbysiad penderfynu, gallwch gael gwybodaeth am sut i apelio ynghyd â'r ffurflenni perthnasol ar wefan y Tribiwnlys Gwybodaeth.

3. Dylai unrhyw Hysbysiad Apelio gael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod (calendr) ar ôl dyddiad anfon yr hysbysiad penderfynu hwn.

**Llofnod ....................................................**

**Catherine Dickenson**
**Uwch-swyddog Achosion**
**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**